

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021

Yn bresennol:

John Griffiths AS (Cadeirydd)
Steffan Evans – Sefydliad Bevan (Ysgrifenyddiaeth)
Andrew Bettridge – Swyddfa John Griffiths
Jane Hutt AS – Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Altaf Hussain AS
Ben Saltmarsh – National Energy Action
Sioned Williams AS
Catherine Rees – Achub y Plant
Cherrie Bija – Ffydd mewn Teuluoedd
Ryland Doyle
Duncan Holtam – Pobl a Gwaith
Eleri Williams – Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Ellie Harwood – Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Luke Fletcher AS
Gareth Morgan – Ferret Information Systems
Georgia Marks – Y Groes Goch
Gwen Hardy – Cyngor ar Bopeth
Vikki Howells AS
Sally Hunt – Llywodraeth Cymru
Karen Davies – Purple Shoots

Cofnodion y cyfarfod

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y grŵp trawsbleidiol ers yr etholiad.
2. Cytunodd y grŵp i ailethol John Griffiths AS fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol (fe'i enwebwyd gan Altaf Hussain AS, ac fe'i eiliwyd gan Vikki Howells AS), ac i ailethol Sefydliad Bevan fel ysgrifenyddiaeth y grŵp.
3. Cyflwynodd y Cadeirydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a gafodd ei gwahodd i'r cyfarfod i ddarparu trosolwg o waith Llywodraeth Cymru ar dlodi.
 - a) Rhoddodd y Gweinidog drosolwg helaeth o'r camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â thlodi, a rhai o'r camau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd dros y misoedd nesaf. Cododd y Gweinidog bryderon penodol ynghylch y ffaith y gallai llawer o aelwydydd yng Nghymru fod yn wynebu storm berffaith yn ystod y gaeaf, o ystyried y toriadau arfaethedig i'r Credyd Cynhwysol a'r ffaith bod prisiau bwyd ac ynni yn cynyddu.
 - b) Amlinellodd y Gweinidog rai o'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leddfu'r pwysau hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyrch newydd o ran annog pobl i hawlio budd-daliadau, ei phenderfyniad i ymestyn hyblygrwydd y Gronfa Cymorth Dewisol, y cymorth ychwanegol a ddarperir drwy gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, y Rhaglen Cartrefi Clyd, a mesurau cymorth eraill ar gyfer aelwydydd sydd oddi ar y grid.
 - c) Amlinellodd y Gweinidog y gwaith y mae'n ei wneud ar draws y Llywodraeth o ran gweithredu i drechu tlodi. Nododd ei bod eisoes wedi cynnal cyfarfodydd â Julie

Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, i drafod darpariaeth gofal plant; cyfarfodydd â Jeremy Miles AS, y Gweinidog Addysg, i drafod pryddau ysgol am ddim; a chyfarfodydd â Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, i drafod y cysylltiadau ehangach rhwng tlodi a'r economi. Nododd y Gweinidog hefyd ei bod yn parhau i weithio gyda'i chyd-Weinidogion er mwyn rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith.

- d) Nododd y Gweinidog fod adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar y dulliau a ddefnyddir yn rhyngwladol i drechu tlodi ar fin cael ei gyhoeddi. Yn ôl y Gweinidog, bydd gan yr adroddiad hwn rôl bwysig i'w chwarae o ran penderfynu ar y dull strategol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei fabwysiadu.
 - e) Wrth gloi ei throsolwg, gwnaeth y Gweinidog gynnig i fynychu cyfarfodydd y grŵp yn rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud ac er mwyn rhannu syniadau.
4. Cyn gwahodd cwestiynau o'r llawr, nododd y Cadeirydd fod y grŵp, yn ystod y Senedd flaenorol, wedi gofyn i Lywodraeth Cymru benodi Gweinidog ym maes tlodi, a fyddai'n bwynt cyswllt canolog ar gyfer trafodaethau cysylltiedig. Gofynnodd i'r Gweinidog a oedd ei phenodiad i'w rôl newydd, sef y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn golygu ei bod wedi ymgymryd â'r rôl hon. Cadarnhaodd y Gweinidog mai dyma oedd y sefyllfa. Dywedodd y dylai aelodau'r grŵp gysylltu â hi ac aelodau o'i thîm, sef Sally Hunt a Sarah King, pe byddent yn dymuno trafod unrhyw un agwedd ar waith Llywodraeth Cymru ar dlodi.
5. Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i gwestiynau o'r llawr. Gofynnwyd ystod eang o gwestiynau. Roedd y materion a ganlyn ymhlith y rhai a drafodwyd:
- a) Pryderon bod materion iechyd meddwl ymhlith plant yn dod yn broblem fwy amlwg mewn cymunedau yng Nghymru.
 - b) Dull Llywodraeth Cymru o leihau ansicrwydd bwyd, a'i Strategaeth Bwyd Cymunedol. Yn ystod y drafodaeth, rhannwyd enghreifftiau o arfer gorau lleol.
 - c) Cwestiynau ynghylch pam fu'r cynnydd a wnaed o ran lleihau tlodi yng Nghymru wedi bod yn araf.
 - d) Cynllun peilot Llywodraeth Cymru ynghylch darparu incwm sylfaenol.
 - e) Polisi gwisg ysgol – yn benodol, a oes cyfleoedd i ailedrych ar y mater hwn, o ystyried y ffaith bod Llywodraeth y DU wrthi'n diwygio'r drefn yn Lloegr?
 - f) Tlodi tanwydd a'r cynnydd mewn prisiau ynni.
 - g) Cwestiynau ynghylch sut y bydd y Gweinidog yn cydweithio â'i chyd-Weinidogion, o ystyried y gorgyffwrdd sylweddol sy'n bodoli rhwng gwaith y Gweinidog a gwaith adrannau eraill. Trafodaethau cysylltiedig ynghylch a fyddai modd gwneud y gwaith hwn heb strategaeth. Mewn ymateb, nododd y Gweinidog ei bod wedi cyfarfod â'r Gweinidog Cyllid a bod tlodi bellach wedi'i ymgorffori ym mhroses y gyllideb.
 - h) Pwysigrwydd sicrhau'r incwm mwyaf posibl.
 - i) Gweithredu'r broses o ymestyn hyblygrwydd y Gronfa Cymorth Dewisol.
6. Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth y Gweinidog ymrwymiad y byddai ei swyddogion, yn dilyn y cyfarfod, yn darparu eglurhad pellach i aelodau'r grŵp trawsbleidiol mewn perthynas â dau fater. Dyma'r materion:
- a) Manylion y sefydliadau a wnaeth gynigion llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd.

- b) Eglurder ynghylch y meini prawf cymhwystra mewn perthynas ag ymestyn hyblygrwydd y Gronfa Cymorth Dewisol.
7. Mae swyddogion y Gweinidog wedi darparu eglurhad ysgrifenedig, ac mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Atodiad A isod.
 8. Ar ôl i'r drafodaeth hon ddod i ben, diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei hamser. Yr eitem nesaf ar yr agenda oedd ystyried y meysydd yr hoffai'r grŵp eu trafod yn y sesiynau sydd i ddod. Cafodd tri maes eang eu nodi yn ystod y drafodaeth:
 - a) Y cysylltiad rhwng yr economi, gwaith a thlodi
 - b) Bwyd a thlodi
 - c) Sicrhau'r incwm mwyaf posibl a gwaith Llywodraeth Cymru ar system fudd-daliadau i Gymru
 9. Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r grŵp i gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn rhannu unrhyw syniadau eraill ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol.
 10. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod. Yna, daeth â'r cyfarfod i ben.

Atodiad A

1. Yn y tabl isod, ceir manylion y sefydliadau a wnaeth gynigion llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Darparwyd y manylion hyn gan Lywodraeth Cymru.

Enw'r Prosiect	Sefydliad	Awdurdod lleol
Joseph Community Connect	St Joseph's Community Connect	Conwy
Valleys Pantries	Linc Cymru	Pen-y-bont ar Ogwr
Bwyd i Bawb	Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch	Rhondda Cynon Taf
Well Fed - Mobile Shop (ping)	Well Fed Services	Sir y Fflint
Y Pantri	Ysgol Cwm Brombil	Castell-nedd Port Talbot
From the Earth to the Table	One Life Autism Support Group	Blaenau Gwent
Hwb Bwyd Cymunedol	Sefydliad Glowyr Llanhilledd	Blaenau Gwent
Llysiâu Hygyrch	Splice Child and Family Project	Pen-y-bont ar Ogwr
The Food Forward Hub, Llanelli	Y Ganolfan Adeiladu Gweithredu Cymdeithasol Cyf.	Sir Gaerfyrddin
Pantri Bwyd Garw Uchaf	Calon y Cwm CIO	Pen-y-bont ar Ogwr
Gwasanaeth bwyd wythnosol Dar Ul-Isra	Canolfan Addysg a Lles Dar Ul-Isra	Caerdydd
Ehangu'r Ddarpariaeth o Fanciau Bwyd a Gwasanaethau Cyngor ar draws Caerdydd	Eglwys Bedyddwyr Ainon	Caerdydd
Pod Bwyd Penarth	Cartrefi'r Fro	Bro Morgannwg
Rhwydwaith Tlodi Bwyd Wrecsam	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	Wrecsam

Porthi Pawb	CaerAilGyfle	Gwynedd
Bwyd Da Bangor	Cymunedau Adfer Gogledd Cymru	Gwynedd
Noddfa Foodshare	Eglwys Noddfa	Blaenau Gwent
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Ymchwil Data	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Cymru gyfan
Bwydo'r Gymuned	Dyffryn Gwyrdd	Gwynedd
Caffi Cymunedol Sure Hope	Eglwys Sure Hope	Conwy
Pantri Cymunedol y Pil	Ymddiriedolaeth Gymunedol Mileniwm Pilgwenlli	Casnewydd
Growing to Inspire	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Torfaen
Gofalu am Gaerffili	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Caerffili
Canolfan Gymunedol Dowlais	Elusen Stephens a George	Merthyr
Matthew's House	Eglwys yr Hill	Abertawe
Step4Change	Step4Change	Caerdydd
Bwydo Merthyr	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Merthyr
Food Security Partnership in Action – Sir Fynwy	Cyngor Sir Fynwy	Sir Fynwy
Prosiect Bwyd Cymunedol Goleudy	Goleudy	Abertawe
North Powys Good Food Futures	North Powys Good Food Futures	Powys
Pantri Llanelwng	Eglwys yr Hope, Llanelwng	Caerdydd
Reducing Poverty, Growing Community	Eglwys St Thomas	Abertawe
Pantri Ysgol Penywaun	Ysgol Gynradd Penywaun	Rhondda Cynon Taf
Bwydo Casnewydd	Banc Bwyd Casnewydd	Casnewydd
Let's Eat NPT	Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd Port Talbot
Helping Hands – Threshold	DAS Threshold LTD	Sir Gaerfyrddin

Tlodi Bwyd Ynys Môn	Cyngor Sir Ynys Môn	Ynys Môn
Bwyd Caerdydd	Bwyd Caerdydd	Caerdydd
Rhwydwaith Bwyd Ceredigion	Cyngor Sir Ceredigion	Sir Gaerfyrddin
Prosiect Paratoi a Choginio Bwyd, Café Canolfan, Pontarddulais	Partneriaeth Pontarddulais	Abertawe

2. Yn dilyn y cyfarfod, darparodd Llywodraeth Cymru eglurhad pellach ynghylch y meini prawf cymhwysra mewn perthynas ag ymestyn hyblygrwydd y Gronfa Cymorth Dewisol. Mewn e-bost, dywedodd Sally Hunt o'r Tîm Trechu Tlodi:

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cytuno i lacio'r rheolau am gyfnod ychwanegol o chwe mis, hyd at 31 Mawrth 2022, a hynny er mwyn lliniaru effaith barhaus y pandemig.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi ymestyn yr hyblygrwydd er mwyn cynnwys pobl yr effeithiwyd arnynt gan y penderfyniad i roi terfyn ar y cynnydd o £20 yn y Credyd Cynhwysol o 1 Hydref 2021 ymlaen.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog wedi cytuno i barhau â'r cymorth tanwydd gaeaf sydd ar gael ar gyfer cartrefi sydd oddi ar y grid, a gaiff ei ddarparu rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth 2022.